



ADRODDIADAU'R ARHOLWR

**LEFEL 2 IECHYD A GOFAL
CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A
CHYD-DESTUNAU**

IONAWR 2024

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynnyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynnyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 2 Tystysgrif

Ionawr 2024

UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

Sylwadau Cyffredinol

Ar y cyfan roedd yr ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad hwn. Cwblhaodd pob ymgeisydd y papur, sy'n awgrymu bod digon o amser i ymgeiswyr ysgrifennu ymatebion manwl.

Roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am y fanyleb yn dda ar y cyfan; roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am y meysydd cynnwys yr ymdriniwyd â nhw yn y cwestiynau i'w gweld yn dangos dealltwriaeth gyffredinol dda. Roedd gallu'r ymgeiswyr i gymhwyso gwybodaeth at y sefyllfaoedd penodol yn y senarios yn amrywio, yn dibynnu ar y senario. Dylid ymarfer cymhwyso gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.

Roedd sillafu a gramadeg yn elfen gadarnhaol i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ac roedd llawysgrifen yn ddarllenadwy yn y rhan fwyaf o achosion.

Yn y cwestiynau sy'n werth mwy, yr ymgeiswyr a ddangosodd broses feddwl glir yn eu dull o strwythuro eu hymatebion oedd yn ennill marciau yn y band uchaf. Defnyddiwyd tystiolaeth o fapiau meddwl a chofrifau i gefnogi galw i gof, er enghraifft, PIES.

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn cynnig ymatebion wedi'u datblygu i'r holl gwestiynau a oedd yn gofyn am fwy na nodi neu roi datganiad, ac anaml y gwelwyd pwyntiau byr neu bwyntiau bwled. Prin iawn oedd yr atebion a oedd yn cynnwys un gair yn unig neu frawddegau byr.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen cwestiynau a byddai rhai ymgeiswyr wedi elwa o ganolbwyntio mwy ar eiriau gorchymyn y cwestiynau.

Sylwadau ar gwestiynau unigol

Cw.1 Bwriadwyd i'r cwestiwn hwn fod yn gyflwyniad i'r papur, yn seiliedig ar alw i gof. Roedd rhai ymgeiswyr wedi drysu rhwng ffactorau a digwyddiadau bywyd.

Cw.2 (a) Roedd yn braf gweld y gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr alw i gof y cam bywyd a'r ystod oedran yn gywir.

(b) Roedd yr ymatebion yn cynnwys gwybodaeth dda o siart canraddol, gan nodi hyd/taldra, pwysau, a chylchedd y pen fel agweddau ar dwf sy'n cael eu cofnodi ar siart canraddol.

(c) Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr wedi deall y term sgiliau echddygol bras a rhoddwyd marciau i ymatebion a oedd yn cysylltu'r symudiadau mawr y cyhyrau â cham bywyd babandod.

Cw.3 (a) Yn y cwestiwn hwn, roedd ymgeiswyr yn drysu rhwng camau chwarae a mathau o chwarae. Mae camau chwarae yn cysylltu ag oedran y plentyn, lle mae mathau o chwarae yn cysylltu â'r amrywiaeth o weithgareddau.

(b) Wrth ddisgrifio pwysigrwydd chwarae, roedd yr ymgeiswyr a enillodd farciau llawn wedi disgrifio datblygiad deallusol a datblygiad cymdeithasol yn glir, gydag enghreifftiau o weithgareddau i ategu eu disgrifiadau.

- Cw.4** Gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr amlinellu'r term 'mwy abl a thalentog'. Roedd y rhai a ddefnyddiodd derminoleg y pwnc a brawddegau strwythuredig yn gallu ennill mwy o farciau nag ymgeiswyr a oedd wedi ceisio amlinellu mewn brawddegau a oedd yn cynnwys un neu ddau o eiriau'n unig, megis '*clyfrach*'.
- (b) Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymgeiswyr yn canolbwyntio gan amlaf ar ordewdra a gorbryder. Roedd hynny'n cyfyngu'r marciau i waelod/rhan isaf y band marciau canol.
Roedd ymgeiswyr a oedd wedi deall y gair gorchymyn yn cynnig trafodaethau manwl gan gynnwys amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol ar dwf, iechyd a llesiant Molly. Rhoddwyd yr ymatebion hyn yn y band marciau uchaf.
- Cw.5** (a) Roedd llawer o ymgeiswyr wedi camddeall y term 'cyfranogiad gweithredol' gan ymateb ag ymatebion a oedd yn ymwneud â symudedd. Rhoddwyd marciau am ymatebion a oedd yn disgrifio pwysigrwydd rhoi llais a rheolaeth i Sanjay dros ei ofal ei hun yn rhan o'i adferiad.
- (b) Roedd angen darllen a deall y cwestiwn hwn yn ofalus. Rhoddwyd atebion a oedd yn esbonio'n fanwl sut gall bod yn annibynnol wella hunangysyniad yn y band marciau uchaf.
- (c) Cafwyd asesiad manwl yn cynnwys amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol ar dwf, iechyd a llesiant Sanjay gan ymgeiswyr a oedd wedi deall y gair gorchymyn. Rhoddwyd yr ymatebion hyn yn y band marciau uchaf.
- Cw.6** (a) Roedd y cwestiwn yn gofyn am ffyrdd byddai'r cartref gofal yn gallu cefnogi iechyd a llesiant Tai. Gofynnwyd i ymgeiswyr ddisgrifio enghreifftiau, megis ei helpu i ymolchi ac eillio bob bore. Collodd ymgeiswyr farciau am ymatebion amwys megis 'ei helpu i wneud pethau'.
- (b) Er bod rhywfaint o farciau wedi'u rhoi am esbonio effeithiau cadarnhaol cyfarfodydd grŵp, roedd yn rhaid i ymatebion ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth glir o 'ymwybyddiaeth ofalgar' i ennill marciau yn y band uchaf.
- (c) Roedd yr Uwch Arholwr yn fodlon â'r amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn, wrth esbonio pwysigrwydd cyswllt â'i deulu dros y rhyngwyd i Tai. Collwyd rhai marciau drwy ddiffyg manylion yn yr ymatebion. Rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr am atebion manwl o ansawdd da. Roedd yr ymgeiswyr hyn yn aml yn dangos cynllun cyn ysgrifennu eu hymateb.
- Cw.7** Ni roddodd nifer uchel o'r ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn. Roedd ymatebion yn dangos diffyg gwybodaeth o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae deddfwriaeth bresennol yn faes testun pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef wrth ddysgu yn y dyfodol. (Y Fanyleb: Maes testun 1.4)

- Cw.8** (a) Roedd hwn yn gwestiwn syml a oedd yn profi gallu ymgeiswyr i alw i gof. Collwyd marciau gan llawer o ymgeiswyr. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn cydnabod/nodi enghreifftiau o fentrau iechyd a llesiant cyfredol yng Nghymru. Er bod llawer o fentrau newydd, argymhellir bod y gwaith o ddysgu'r maes testun hwn yn dechrau gyda'r rhai a nodir yn y fanyleb.
- (b) Gwelwyd amrywiaeth dda o ymatebion yn disgrifio rôl, pwrpas a heriau'r fenter llesiant ymwybyddiaeth o wrthfotigau. Collwyd marciau lle roedd ymgeiswyr wedi esbonio'r rôl neu'r pwrpas yn unig, heb sôn am yr heriau.
- (c) Gofyniad y cwestiwn hwn oedd asesu'r mathau gwahanol o ddeunyddiau hyrwyddo. Collodd llawer o ymgeiswyr farciau drwy beidio â chynnig ymateb manwl. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ymateb gyda brawddeg syml neu ddwy, a oedd yn eu cyfyngu o ran marciau.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Yn gyffredinol, dangoswyd proses feddwl glir gan ymgeiswyr mewn llawer o gwestiynau, ac roedden nhw'n gallu galw gwybodaeth i gof ar gyfer cwestiynau marciau is.
- Mae angen atgoffa ymgeiswyr i roi sylw i'r geiriau gorchymyn ac i baratoi eu hymatebion yn briodol er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch.
- Enillodd yr ymgeiswyr lai o farciau os gwnaethant lunio rhestri yn hytrach na rhoi atebion mwy manwl.
- Mae angen i ymgeiswyr ymarfer amlinellu'r meysydd allweddol sy'n ofynnol ar gyfer pob cwestiwn ac ymateb i'r cwestiynau hynny yn unig, neu gysylltu atebion yn glir yn ôl i dermau allweddol o leiaf, er enghraifft, enwi effaith ar 'iechyd' yn unig os mai dyna yw gofyniad y cwestiwn.

Mae deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael ar wefan CBAC i ymgeiswyr weld sut mae'r cwestiynau'n cael eu geirio a'r hyn y gellir ei arholi. Mae adnoddau ar-lein CBAC, gan gynnwys technegau adolygu, hefyd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ac, am arweiniad pellach, mae deunyddiau DPP ar gael ar wefan ddiogel CBAC.

Mae gwrslyfr newydd ar gael i gefnogi dysgwyr y cwrs hwn, ar gael gan adnoddau@cbac.co.uk ISBN:978-1-86085-763-8



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk